OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1575 (Cy.161)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) (Diwygio) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *22 Mehefin 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *30 Mehefin 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 6(3) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**):

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) (Diwygio) 2004 a daw i rym ar 30 Mehefin 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Gorchymyn 2002" yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002(**2**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru ac eithrio'r rheini a bennir yn adran 1(1)(d) ac (e) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999.

### Diwygiadau i Orchymyn 2002

**2.**—(1) Caiff Gorchymyn 2002 ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ddechrau erthygl 3, mewnosoder "Yn ddarostyngedig i erthygl 3A,".

(3) Ar ôl erthygl 3, mewnosoder —

> "**Cyhoeddi cynlluniau gwella ym mlwyddyn ariannol 2004-2005**
>
> **3A.** Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2004 ac sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2005, rhaid i awdurdodau gwerth gorau gyhoeddi eu cynllun gwella erbyn 31 Gorffennaf 2004.".

(**1**) 1999 p.27.
(**2**) O.S. 2002/886 (Cy.101).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

22 Mehefin 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 ("Deddf 1999") yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill i gynnal adolygiadau gwerth gorau o'u swyddogaethau ac i lunio cynllun perfformiad gwerth gorau ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Ar 1 Ebrill 2002, daeth Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002 ("Gorchymyn 2002") i rym. Cafodd Gorchymyn 2002 ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â phwerau a freinir ynddo o dan Ddeddf 1999. Yng Ngorchymyn 2002, ymhlith pethau eraill, pennwyd y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i awdurdod gyhoeddi ei gynllun perfformiad gwerth gorau (a elwir yn "gynllun gwella" yng Ngorchymyn 2002).

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2002 fel y bydd yn rhaid i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (gan gynnwys pan fyddant yn gweithredu fel awdurdodau gwaredu gwastraff) ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru gyhoeddi eu cynlluniau gwella, at ddibenion blwyddyn ariannol 2004-2005 yn unig, erbyn 31 Gorffennaf 2004.